# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 26 Mehefin 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

## 219(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(10 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 4 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau amserol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog - Trefniadau cadeirio Pwyllgor y Llywydd

(5 munud)

**NDM8622** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Trefniadau cadeirio Pwyllgor y Llywydd', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2024.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 18B, fel y nodir yn Atodiad A i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 7 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Bil buddion ynni cymunedol

(30 munud)

**NDM8616** Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil buddion ynni cymunedol.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) sicrhau bod datblygiadau ynni adnewyddadwy o fudd uniongyrchol i gymunedau lleol, a bod colli amwynder i gymunedau yn ystyriaeth allweddol wrth benderfynu a yw prosiectau seilwaith ynni mawr yn mynd rhagddynt;

b) ei gwneud yn ofynnol i elw o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy gael ei gadw yn yr ardal leol;

c) gwneud perchnogaeth leol yn elfen orfodol ym mhob datblygiad cynhyrchu ynni;

d) gwneud y defnydd o dechnoleg adnewyddadwy yn orfodol yn yr holl adeiladau newydd, datblygiadau sylweddol ac estyniadau; ac

e) defnyddio'r holl opsiynau tir llwyd hyfyw cyn y gellir ystyried unrhyw safle maes glas, yn enwedig os bydd yn effeithio ar gynefinoedd anghysbell ac amrywiol a/neu fod mynediad a seilwaith yn gyfyngedig neu'n anfodol.

**Cefnogwyr**

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

## 8 Dadl ar Ddeiseb P-06-1437 - Tyfu, nid torri, cyllid y Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Cymru a'r Comisiwn Brenhinol

(30 munud)

**NDM8623** Rhianon Passmore (Islwyn)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-06-1437 Tyfu, nid torri, cyllid y Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Cymru a'r Comisiwn Brenhinol', a gasglodd 12,075 o lofnodion.

## 9 Dadl Plaid Cymru - Cymru a llywodraeth nesaf y DU

(60 munud)

**NDM8624** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) y gefnogaeth drawsbleidiol yn y Senedd i Gymru gael ei chyfran deg o gyllid canlyniadol HS2; a

b) ymrwymiad blaenorol Llywodraeth Cymru i ddatganoli cyfiawnder ac asedau Ystâd y Goron yng Nghymru yn llawn.

2. Yn gresynu at fethiant maniffestos Plaid Lafur y DU a'r Ceidwadwyr i ymrwymo i gyflawni ar ewyllys bendant y Senedd a Llywodraeth Cymru ar y materion hyn.

3. Yn credu bod hyn yn dangos ymhellach fod swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi dyddio ac nad yw'n gwasanaethu buddiannau pobl Cymru mewn modd effeithiol.

4. Yn galw ar Lywodraeth nesaf y DU i ddiddymu rôl Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i drydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru a'r ffaith mai Cymru yw'r unig genedl bargeinion twf yn y DU.

Yn credu bod hyn yn dangos bod swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gwasanaethu buddiannau pobl Cymru yn effeithiol.

Yn galw ar Lywodraeth nesaf y DU i sicrhau bod llais Cymru yn parhau i gael amlygrwydd yn y Cabinet drwy benodiad Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu'r cyfan ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi llwyddiant datganoli dros y 25 mlynedd diwethaf o ran cyflawni newid radical i bobl Cymru.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda pha Lywodraeth bynnag a etholir nesaf yn y DU i helpu i gyflawni argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Yn cytuno bod un llywodraeth Geidwadol ar ôl y llall yn y DU wedi tanseilio setliad datganoli Cymru ac yn nodi gyda phryder bod maniffesto'r blaid Geidwadol yn cynnwys mesurau a fyddai'n tanseilio datganoli ymhellach, gan gynnwys diddymu Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) sy'n helpu i amddiffyn gweithwyr y sector cyhoeddus ac ehangu'r Bil Cefnogi Gyrwyr i gynnwys Cymru.

Yn nodi pwysigrwydd cael perthynas adeiladol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Yn cydnabod yr angen am Lywodraeth yn y DU sy'n parchu ac yn hyrwyddo datganoli gan greu Cyngor y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau a ategir gan waith rhynglywodraethol cryf ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru penodedig ar gyfer materion Cymreig yng nghabinet y DU.

Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad terfynol

Manifesto'r Blaid Geidwadol

## 10 Cyfnod Pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8619** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Gwarchod cymunedau rhag effaith cloddio am fwynau: yr angen i gau Chwarel Craig yr Hesg.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 2 Gorffennaf 2024

## Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 19/06/2024 i'w hateb ar 26/06/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

### YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS OGLEDD CYMRU A THRAFNIDIAETH

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

1 OQ61306 **(e)** Tynnwyd yn ôl

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am dagfeydd ym Mhreseli Sir Benfro?

**Buffy Williams** *Rhondda*

2 OQ61317 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am fuddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus ar draws etholaeth Rhondda?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

3 OQ61310 **(e)**

Beth yw polisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelwch ar y ffyrdd?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

4 OQ61335 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael gyda Chyngor Caerdydd ynglŷn â datblygu mwy o lwybrau diogel i ysgolion?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OQ61322 **(e)**

Pa ystyriaeth y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i rhoi i ddata'r heddlu a gyhoeddwyd ar wrthdrawiadau 20mya?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

6 OQ61336 **(e)**

Pa gynlluniau hirdymor sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau rheilffordd yn Islwyn?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

7 OQ61320 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch datblygu ffordd osgoi Cas-gwent?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

8 OQ61325 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar ddeddfwriaeth arfaethedig ynghylch gwasanaethau bysiau?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

9 OQ61299 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dysgwyr yng Nghanol De Cymru i deithio i'r ysgol yn ddiogel?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

10 OQ61300 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn hygyrch?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

11 OQ61348 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o ddigonolrwydd gwasanaethau bysiau yn Nwyrain De Cymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

12 OQ61342 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael, ers iddo gael ei benodi, gyda rhanddeiliaid ar waith uned cyflenwi Burns?

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS DDIWYLLIANT A CHYFIAWNDER CYMDEITHASOL

**Hefin David** *Caerffili*

1 OQ61337 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei thrafodaethau gydag Opera Cenedlaethol Cymru ynghylch y pwysau cyllidebol y mae'n eu hwynebu?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

2 OQ61303 **(e)**

Pa gamau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn eu cymryd i gefnogi chwaraeon cymunedol yn Aberconwy?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

3 OQ61340 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu preswylwyr sy'n berchen ar eiddo sydd wedi'u rhestru gan Cadw i gynnal a datblygu eu cartrefi?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

4 OQ61341 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar baratoadau i Gymru gymryd cyfrifoldeb am weinyddiaeth lles?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OQ61302 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi plant?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

6 OQ61334 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo mynediad i hanes a threftadaeth cymoedd y de?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

7 OQ61332 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddiogelu amgylchedd hanesyddol Cymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

8 OQ61309 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r sector gwirfoddol?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

9 OQ61338 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn hawdd eu cyrraedd i bobl â nam ar eu golwg?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

10 OQ61344 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad oes rhwystrau i bobl anabl gymryd rhan mewn chwaraeon elitaidd?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

11 OQ61345 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am nifer y cynghorwyr trais rhywiol annibynnol sydd ar gael yng ngogledd Cymru?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

12 OQ61346 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi gwirfoddoli?

## COMISIWN Y SENEDD

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

1 OQ61326 **(e)**

Sut mae'r Comisiwn yn denu ymwelwyr i'r Senedd?